# Gweithio Rhan-amser

## Cyngor ar dâl

Gall gweithio rhan-amser fod yn ddewis defnyddiol i nifer o swyddogion sydd eisiau neu angen cydbwysedd gwell rhwng gwaith a bywyd. Gall hefyd fod yn ddewis defnyddiol i'w helpu i ateb gofynion plismona sydd yn newid. Mae Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr wedi cynhyrchu'r arweiniad hwn ar gyfer swyddogion sy'n gweithio'n rhan-amser yn unol â rheoliadau'r a phenderfyniadau'r heddlu.

### Tâl

Mae swyddogion sy'n gweithio'n rhan-amser yn cael eu talu ar raddfa awr pro rata i'r cyflog y buasent yn ei dderbyn pe tasent yn gweithio'n llawn amser. Mae Swyddogion sy'n gweithio'n llawn amser yn cael cyflog blynyddol o 40 awr yr wythnos.

### Tâl am oriau ychwanegol/goramser

Os yw swyddogion rhan-amser yn gweithio mwy na'u horiau cytundeb ar ddiwrnod gwaith, yna ar yr amod eu bod wedi gweithio llai na chyfanswm o oriau am yr wythnos honno, telir iawndal am yr oriau ychwanegol neu bydd yr oriau cael eu tynnu o amser arferol. Nid yw'r hanner awr gyntaf yn cael ei dynnu o'r oriau ychwanegol a weithiwyd gan nad yw'n cael ei hystyried fel goramser. Mae unrhyw oriau ychwanegol a weithir, hyd at fwyafswm o 40 awr yr wythnos yn bensiynadwy os ydynt yn cael eu cymryd ar gyfer taliad. Fel arall, gall y swyddog ddewis amser i ffwrdd yn lle unrhyw oriau ychwanegol a weithiwyd. Mae cylchlythyr PNB 2014/6 yn cynnig arweiniad ar y taliadau a'r lwfansau y dylai'r heddlu gynnwys wrth gyfrif tâl am oriau ychwanegol a weithiwyd. Dim ond oriau ychwanegol a weithiwyd gan gwnstabliaid a rhingylliaid sy'n gweithio dros 40 awr yr wythnos sy'n denu goramser.

### Rhestrau Dyletswydd

Bydd rhestr ddyletswydd ar gyfer swyddog sy'n gweithio'n rhan-amser yn cynnwys dyddiau gwaith, dyddiau gorffwys a gwyliau cyhoeddus.
- Diwrnod gwaith yw pan fydd y swyddog yn cyflawni ei ddyletswyddau.
- Diwrnod rhydd yw pan gytunir na fydd swyddog yn gweithio ac yn cael ei ddiffinio fel nid diwrnod dyletswydd, gwyliau cyhoeddus neu ddiwrnod gorffwys ar y rhestr ddyletswydd.
- Diffinnir diwrnod gorffwys fel diwrnod nad yw'n ddiwrnod dyletswydd na diwrnod rhydd.

Mae gan bob swyddog yr hawl i ddiwrnod gorffwys ar raddfa dau ddiwrnod yr wythnos.
- Mae gwyliau cyhoeddus yn cynnwys Diwrnod Nadolig, 26 Rhagfyr, Dydd Calan, Sul y Pasg ac unrhyw Ŵyl y Banc arall.

### Gwyliau Blynyddol

Mae gan bob swyddog yr hawl i nifer penodol o wyliau sy'n gymesur â'i wasanaeth, pob dydd yn gyfwerth ag 8 awr o wyliau wedi talu. Serch hynny, yn achos swyddogion sy'n gweithio'n rhan-amser, bydd gan bob diwrnod werth pro-rata yn unol â'r oriau y cytunwyd arnynt. Er enghraifft, os yw swyddog yn cyflawni 20 awr o waith yr wythnos byddant yn cael 4 awr i ffwrdd ar gyfer pob diwrnod gwyliau gan roi cyfanswm o oriau gwyliau'r flwyddyn sy'n cyfateb i hanner gwyliau swyddog amser llawn; os yw hawliau yn cael eu cynnig mewn oriau.

### Gwyliau Cyhoeddus

Mae gan bob swyddog yr hawl i ddiwrnod o wyliau wedi ei dalu ar bob gŵyl gyhoeddus yn unol â gofynion dyletswydd. Serch hynny, yn achos swyddogion sy'n gweithio rhan-amser bydd gan bob dydd werth pro-rata yn unol â'u horiau dyletswydd, er enghraifft:-
- Os yw swyddog yn gweithio 20 awr yr wythnos (50%) mae ganddo'r hawl i 4 awr o amser i ffwrdd ar gyfer pob gŵyl gyhoeddus.
- Os yw gweithiwr rhan-amser yn gweithio 32 awr yr wythnos (80%) mae ganddynt yr hawl i 6.4awr o wyliau wedi talu ar gyfer pob gŵyl gyhoeddus




### Diwrnod rhydd ar ŵyl gyhoeddus

Os yw diwrnod rhydd swyddog yn disgyn ar ŵyl gyhoeddus mae'r diwrnod yn cael ei drin ar fel gŵyl gyhoeddus ac mae gan y swyddog yr hawl i'w oriau pro rata o wyliau cyhoeddus gyda thâl.

### Dyletswydd ar wyliau cyhoeddus

Mae swyddog sy'n gweithio rhan-amser ac sy'n cyflawni dyletswyddau ar ŵyl gyhoeddus yn derbyn y raddfa briodol ar gyfer yr oriau y mae'n gweithio.
- Os oes gofyn i'r swyddog weithio ar ŵyl gyhoeddus gyda 8 diwrnod o rybudd neu fwy, yr iawndal fydd tâl dwbl.
- Os yw'r swyddog yn derbyn llai na 8 diwrnod o rybudd, telir iawndal o dâl dwbl a diwrnod i ffwrdd sy'n cael ei drin fel gŵyl gyhoeddus. Os oes gofyn i swyddog gyflawni dyletswydd ar ŵyl gyhoeddus bydd yn derbyn iawndal am leiafswm o 4 awr (hyd yn oed oes yw'r swyddog yn gweithio llai na 4 awr). Bydd Arolygwyr a Phrif Arolygwyr sy'n gweithio ar ŵyl gyhoeddus yn derbyn diwrnod am ddiwrnod o fewn 12 mis. Os yw swyddog sy'n gweithio'n rhan amser wedi ei roi ar y rhestr ar ŵyl gyhoeddus ac mae'n cymryd diwrnod i ffwrdd, mae'n bosib y bydd rhaid addasu'r oriau y mae'n rhaid iddo weithio ar ddyddiau nad ydynt yn wyliau cyhoeddus os oes gwahaniaeth rhwng yr oriau pro-rata o wyliau gyda thâl mae'n derbyn ar gyfer gwyliau cyhoeddus a'r nifer o oriau y byddai fel arfer wedi ei roi ar y rhestr ddyletswydd.

### Dyddiau gorffwys ar wyliau cyhoeddus

Os yw gwyliau cyhoeddus yn disgyn ar ddiwrnod gorffwys mae gan bob swyddog yr hawl i gael ei ail-osod ar y rhestr i weithio ar ddiwrnod dyletswydd arall. Os yw swyddog yn gweithio rhan-amser yn cael diwrnod wedi ei ail-osod ar y rhestr ac yn cymryd y diwrnod fel gwyliau cyhoeddus mae ganddo'r hawl i gael oriau pro-rata o wyliau gyda thâl y mae'n derbyn ar gyfer gwyliau cyhoeddus.

### Gweithio ar ddiwrnod gorffwys

Mae pob swyddog yn cael ei ddigolledu yn yr un modd am weithio ar ddiwrnod gorffwys:
- os yw swyddog yn derbyn 15 diwrnod neu fwy o rybudd dylai'r diwrnod gorffwys gael ei newid o fewn 4 diwrnod o'i ganslo;
- os yw swyddog yn derbyn llai na 15 diwrnod o rybudd yna dylai gael ei dalu ar y lwfans priodol o amser a hanner ar gyfer gweithio ar ddiwrnod gwaith, neu mae'n bosib y bydd yn cymryd amser i ffwrdd yn lle taliad.

### Gweithio ar ddiwrnod rhydd

Pan fydd gofyn i swyddog weithio ar ddiwrnod rhydd bydd y digolledu fel a ganlyn:

Os yw'r ddyletswydd yn un mai dim ond y swyddog sy'n gallu ei gyflawni (e.e. bod yn bresennol yn y llys) a:
- mae'r swyddog yn derbyn 15 diwrnod o rybudd neu fwy dylai'r diwrnod rhydd gael ei newid o fewn 4 diwrnod o'i ganslo;
- os yw'r swyddog yn derbyn llai na 15 diwrnod o rybudd yna dylai'r oriau ychwanegol gael eu talu ar raddfa oriau cyffredin neu fel arall eu cymryd fel amser i ffwrdd sy'n cyfateb i'r amser a weithiwyd.

Os yw'r ddyletswydd yn un y gellir ei chyflawni gan unrhyw swyddog (e.e. plismona gweithredol) a:
- mae'r swyddog yn derbyn 15 diwrnod o rybudd, dylai'r diwrnod rhydd gael ei newid o fewn 4 diwrnod iddo gael ei ganslo;
- os yw'r swyddog yn derbyn llai na 15 diwrnod o rybudd dylai gael ei dalu ar y raddfa briodol am weithio ar ddiwrnod gwaith (amser a hanner)

Os oes gofyn i swyddog gyflawni dyletswydd ar ddiwrnod rhydd neu gael ei alw i weithio ar ddiwrnod rhydd bydd yn cael ei ddigolledu am leiafswm o 4 awr (hyd yn oed os yw'r swyddog yn gweithio am lai na 4 awr). Os oes gofyn i Arolygyddion rhan-amser a Phrif Arolygwyr gyflawni dyletswyddau ar ddiwrnod rhydd mae ganddynt yr hawl i gael eu talu ar raddfa oriau arferol am yr oriau a weithiwyd y tu hwnt i'r oriau a gytunwyd hyd at 40 awr yr wythnos.

### Galwad yn ôl i weithio

Gall pob swyddog gael ei alw yn ôl i weithio ar unrhyw adeg. Dylai Heddluoedd sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei wneud i osgoi galw swyddogion ar eu diwrnodau rhydd yn enwedig yn ystod cyfnod o wyliau. Mae gan bob swyddog yr hawl i gael dyddiau ychwanegol i ffwrdd os caiff ei alw yn ôl i weithio o gyfnod o absenoldeb o leiaf 3 diwrnod, a rhaid i un diwrnod fod yn ddiwrnod o wyliau blynyddol, a rhaid i'r ddau ddiwrnod arall fod y dyddiau gorffwys neu wyliau cyhoeddus. Ar gyfer swyddogion rhan-amser, gall y cyfnod 3 diwrnod gynnwys dyddiau rhydd yn ychwanegol i wyliau blynyddol, dyddiau gorffwys a gwyliau cyhoeddus. Mae cylchlythyr PNB 2014/8 yn dangos manylion cytundeb sy'n nodi mewn cyfnod o absenoldeb am o leiaf 5 diwrnod, rhaid i un ohonynt fod yn ddiwrnod o wyliau blynyddol, lle mae gofyn i swyddog weithio ar ddiwrnod gorffwys neu ddiwrnod rhydd bydd y diwrnod hwnnw yn cael ei ddigolledu fel diwrnod o wyliau blynyddol.

### Lwfansau

Mae swyddog amser llawn a benodwyd cyn y 1af o Fedi 1994 yn cael o dan ei delerau ac amodau gwasanaeth dŷ neu lety yn ddi-rent neu lwfans tŷ neu lwfans rent. Dylai swyddogion sy'n derbyn lwfans tŷ/rent sy'n dechrau gweithio'n rhan-amser gael y lwfans pro rata ac wrth ddychwelyd i weithio'n llawn amser dderbyn y lwfans yn llawn. Mae gan cymar swyddog sy'n gweithio'n rhan-amser sydd hefyd yn swyddog heddlu sy'n derbyn lwfans tŷ/rent ac sy'n byw gyda'r swyddog sy'n gweithio'n rhan-amser yr hawl i gynnydd yn ei lwfans tŷ/rent i wneud yn iawn am y lleihad pro rata yn y lwfans.

Dylai swyddog sy'n gweithio'n rhan-amser dderbyn taliad pro rata o lwfans dim ond os yw cost y lwfans yn lleihau wrth weithio'n rhan-amser.

www.polfed.org/advice
#YourFederation